

Y Frech Goch – gwybodaeth i bartneriaid 29/4/13

Mae 10,000 (10%) o blant dan 18 sy'n byw o fewn ffiniau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr mewn peryg o ddal yr afiechyd gan nad ydyn nhw wedi cael 2 pigiad MMR.

Mae'r bwrdd wedi trefnu sesiynau brechu ym mhob ysgol Uwchradd yng Ngogledd Cymru i alluogi plant sydd wedi methu un o'u pigiadau i gael eu hamddiffyn. Mae rhai eisoes wedi eu cynnal ac eraill yn digwydd yn ystod misoedd Ebrill a Mai. Fe fydd rhieni yn cael gwybodaeth am ddyddiadau yn uniongyrchol gan yr ysgol.

Mae ysgolion cynradd sydd a llai na 90% o'r plant wedi'u brechu neu lle mae mwy na 20 o blant heb eu brechu hefyd yn cael eu targedu.

Dydy Gogledd Cymru ddim o fewn ardal yr epidemig. Ar hyn o bryd y cyngor i rieni yw y dylen nhw sicrhau bod eu plant wedi cael 2 bigiad MMR o fewn y dyddiadau penodedig. Mae'r pigiad cyntaf i ddigwydd pan mae'r plentyn yn 12-13 mis oed a'r ail pan maen nhw'n 3 blwydd 4 mis oed. Does dim angen cael y brechiadau yn gynt.

Mae staff iechyd sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda chleifion gan gynnwys y rheiny sy'n gweithio ar wardiau plant, nyrsys ysgol a staff meddygfeydd yn cael eu brechu.

Tybir bod gan oedolion a gafodd eu geni cyn 1970 imiwnedd ac felly does dim angen brechiad. Dydy'r rheiny sydd wedi eu geni rhwng 1970 a 1995 ddim yn cael eu galw am frechiad ar hyn o bryd ond os ydyn nhw'n teithio i ardal yr epidemig, yna'r cyngor yw eu bod yn cysylltu gyda'u meddyg teulu neu Galw Iechyd Cymru am gyngor pellach.

Sut allwch chi ein helpu ni

- Argymell ffrindiau, teulu a chydweithwyr i gael eu plant wedi'u brechu.

Rhoi gwybodaeth am y Frech Goch ar eich gwefan allanol/mewnol drwy greu cyswllt â www.publichealthwales.org/measles. Gosod poster (amgaeedig)

- Dilyn ein tudalen facebook BCUHB ChooseWell ac ail-drydaru BCUHB #measles